

LLEISIAU O LAWYR Y FFATRI / VOICES FROM THE FACTORY FLOOR

Ffatri Hodges, Fforest fach, Abertawe (1960/1-1964) ac Avon Inflatables (c.1980-1990)

Cyfwelai: VSW050 Mrs Beryl Jones

Dyddiad: 27 Mawrth 2014

Cyfwelydd: Catrin Stevens ar ran Archif Menywod Cymru

There is an English summary at the end of the Welsh text

(Noder bod Beryl yn chwaer i Averil Berrell VSW034) a recordiwyd ar gyfer y prosiect hwn hefyd)

Cadarnhaodd Beryl ei henw, ei henw cyn priodi – Beryl Matthews, ei chyfeiriad a'i dyddiad geni: 19:9:1945

Cafodd ei geni a'i magu yn Garreg Lwyd, Graig Fawr, Pontarddulais – roedd ei thad yn golier a'i mam yn gwneud gwaith tŷ. Morwyn ffarm oedd ei mam wedi bod ac yn gwasanaethu yn Llunden yn carco tai i weinidogion. Aeth i Ysgol Gymraeg Pontarddulais (cyn ei galw'n Bryniago) – 1950 rywbeth. Roedd gyda'r cyntaf i fynd i mewn i ysgol Gymraeg y Bont – hi a'i chwaer hŷn, Gwen. Roedd yn mwynhau'r ysgol '**On i'n ddrwg, on i'n siarad lot.**' Aeth yn ei blaen i Pontarddulais Secondary Modern – doedd hi ddim wedi sefyll yr eleven+. '**Dries i ddim o fe ... ges i accident yn siew Bont a ballodd 'n Fam adel i fi ishte fe wedyn.**' Byddai wedi hoffi cael y cyfle i sefyll yr arholiad ond '**'n Fam odd yn gwneud y penderfyniad bryd 'ny ac och chi'n gwrando ..'** Petai wedi pasio byddai wedi mynd i Gowerton (Girls') Gram. Doedd hi ddim yn yr amser pan oedd plant yn mynd i Ystalyfera. Gadawodd yr ysgol yn 1960-61 yn 15 oed. '**Wedon nhw wrtho i os on i'n gallu ffindio jobyn, gallen i fynd.**' Byddai wedi gorfod gorffen yr ysgol beth bynnag erbyn hynny – ni chai aros yn yr ysgol yn y Bont ar ôl cyrraedd 15.

Y jobyn cyntaf oedd pan aeth i Hodges, Fforest fach. Cafodd y gwaith trwy gnocio ar y drws a gofyn a oedd jobyn yn mynd. Roedd ei chwaer hynaf, Lena, oedd yn byw ym Mhontlliw wedi dweud wrthi 'Paid di â mynd â Mami 'da ti, a paid mynd â neb 'da ti,

neu byddan nhw'n galw ti'n *chicken*.' Felly aeth ar ei phen ei hun, cnociodd y drws a chafodd job - i ddechrau ar y dydd Llun.

Roedd ganddi bedair chwaer '**Odd Lena ni wedi bod yn Windsmoor's ... ar y sewing machines odd hi.**' Roedd y ffatri hon drws nesa i Hodges, lan yr hewl. Aeth hon yn Northgate wedyn. Roedd Lena wedi arwain y ffordd iddi hi (Doedd hi ddim yn dilyn Averil o gwbl.)

4.05

Ond odd Averil hefyd wedi mynd i ffatri, on'd odd hi?

Ond yn yr offis odd Averil, odd Averil ddim ar y ffatri *floor* fel fi a Lena.

Roedd y chwaer arall, Gwen, '**ag ychydig o nam arnodd i (ond sai'n credu bod nam arni) ond ballodd Mam adel iddi hi fynd i witho a pethach, so odd ddim o Gwen yn neud dim byd.**

Cafodd hi *interview* ar gyfer y job yn Hodges. Roedd wedi bod yn gwnïo yn yr ysgol, ond heb ei pharatoi ar gyfer mynd am interview – dim CV na dim byd fel heddiw. '**Es i â'n *certificate* 'da fi. On i wedi câl *certificate* yn Cymraeg, RI, (neu RE) a Needlework a History.**' ...

Shwt och chi wedi dewis Hodges 'te?

Y ffatri gynta bases i ar y ffordd a gweud y gwir! Achos yn Fforest fach odd lot o ffatris 'da chi bryd 'ny. Odd Mettoy 'da chi lan y top, just *pot luck* – ges i'r jobyn a gymres i e. Ond on nhw yn traino chi, chmbod, on nhw'n dysgu chi am gwpwl o wthnose cyn bo chi'n câl bod ar ben 'ch hunan.'

Ffatri yn gwneud siwts dynion odd Hodges, ac roedden nhw'n gwneud trowsusau ar eu pennau eu hunain hefyd, - *double-breasted* neu *single-breasted jackets*; '**Och chi'n gorfod matcho'r leinin i fynd gyda'r siwt a phethe fel 'na. A torri fe mas a marco fe ar gyfer y rhai odd yn gwnïo – i gâl gwbod ble yn union i ddodi'r pocedi a pethach a bwtwne i fatcho ..'**

Roedd y dillad yn cael eu hystyried yn rhai gyda'r gorau. Ron nhw'n gwneud y siwtiau cyfan yn y ffatri – torri mas, steamo a presso hefyd.

Ar y dechrau cafodd ei hyfforddi '**on nhw'n *wonderful* i fi, ma rhaid i fi weud.**'

Merch fach arall oedd wedi cael ei hyfforddi cyn hynny oedd yn ei dysgu hi – achos roedd pawb yn symud ymlaen. Y dasg gyntaf gafodd hi oedd trio matcho'r leinin i fynd gyda *certain fabrics* – y lliwiau gwahanol. Roedd y leinin yn bwysig a byddai rhai eisiau cael aur y tu mewn. Roedd hwn yn archeb arbennig – nid dyma oedd y normal.

8.00

Roedd yn rhaid dewis y cotwm iawn i fynd gyda'r lliw. Nid yw Beryl yn gwybod o ble roedd y defnyddiau'n dod. **'Dynion odd yn torri'r rheina mas achos odd e'n rhy drwm i'r merched i handlo siwr o fod.'** Yn y *cutting room* roedd hi – lle ron nhw'n torri'r cyfan lan ac yn ei rowlio i fynd mas i'r merched I wnïo – roedd llwyth o fenywod yn y *sewing part*. **'Final assembly oedd e amser oedd e'n gorffen.'**

Swyddi gwahanol – rhai jyst yn gwneud *button holes*, eraill jyst yn gwnio botymau arno. **'Merched odd yn neud y machines, odd dim lot o fois – torri mas fydde'r bois achos odd machine mawr â blade arno fe chm'bod. Dynon odd yn torri mas.'** Roedden nhw'n defnyddio *template* i gael y gwahanol feintiau. Byddai ambell archeb unigol i'r ffatri hefyd a wedyn bydde'r person hynny yn dod i mewn i ddewis ei ffabrig ei hunan. Roedd *supervisors* yno i tsecio eich bod yn gwneud eich gwaith yn iawn. Rhannu ystafell waith gyda dynion – rhyw 10 o ferched – tair o'r merched yn doddi sialc ar y defnydd – wedi mesur gyda *template* i ddangos ble roedd *splits* i ddodi *gathers*. Wnaeth hi ddim sylwi fod ffasiynau yn newid yn yr amser y bu hi yno. **'Sa i'n timlo bod siwts dynion wedi newid llawer iawn hyd heddi.'** Ron nhw'n gwneud gwasgodi hefyd. Dim crysau a theis. Byddai'r siwtiau yn cael eu pacio ac yn mynd o'r ffatri – un lle oedd Blackwood ac Abertawe a Llanelli wrth gwrs. Ron nhw'n mynd yn syth o'r ffatri i'r siope.

Roedd hi'n gwisgo *overall*, - gorfod ei gael ei hun. Ond pan aeth i weithio i Avon, roedd yn cael yr overalls ac roedd yn gorfod gwisgo *steel toe caps*.

Sut oedd hi'n teimlo yn gweithio yno, **'On, odd Hodges yn gwd'**. Mae'n cofio ei bod yn *nervous* ar ei diwrnod cyntaf. **'On nhw good as gold.'**

Roedd yn dechrau yn y bore c. 8 / 8.30 (ansicr) ac yn cael bys o Bontarddulais i Fforest fach. Roedd wedi aros yn y *cutting room* tra bu hi yno ond, **'roeddech chi'n cael 'ch stepo lan i wneud gwaith mwy cyfrifol fel och chi'n mynd mlân.'** Roedd y job gyntaf yn syml iawn – dim ond matcho'r leinin a rowlio'r ffabrig lan yn y trwser – wedyn symud i farcio'r leinin mas – **'odd e lawer mwy cyfrifol, odd e? Se chi'n doddi'r marcyn yn y lle rong, odd hi'n ddim yn dda, odd hi. Os on nhw wedi torri fe wedyn odd hi'n too late.'** Roedd hi'n ddigon rhwydd i hyn ddigwydd. *Supervisor* oedd yn gofalu ei bod yn gwneud ei gwaith – menyw oedd dros y merched a dyn dros y dynion.

14.00

Chi'n cofio'ch cyflog cynta?

'Dim lot ... decpunt neu rywbeth fydde fe (yr wthnos)

A beth och chi'n neud â'ch arian?

Rhoi e i Mami.

I gyd?

I gyd a câl pump deg ceiniog yn ôl.

Ar gyfer beth bydde hwnnw wedyn?

Ble bynnag on i'n moyn mynd – i'r Tiv (Tivoli) ne rwbeth. ...

Roedd hi'n cael arian i dalu bysys – ond wrth lwc roedd yn teithio ar *season (ticket)* – hyn yn tshepach. Roedd yn talu *National Insurance* a'r Undeb hefyd o'r cyflog.

Och chi'n aelod o'r undeb och chi?

Odd rhaid i ti fod ne bydde'r merched ddim yn fodlon gwitho gyda ti.

Odd e'n gryf?

On nhw'n gwd, on nhw'n gwd *though*, achos fi'n cofio pan on i'n dost (on i ddim yn dost lot, on i?) fi'n cofio bod gartre wthnos yn dost o'r gwaith a pan ethes i miwn, odd yr undeb yn rhoi arian i fi am bo fi wedi bod ar *sick*. ...Ges i ddim o fe'n Avon ...

Undeb y *Clothing industry* oedd e. Roedd hi'n aelod ond fu hi ddim yn Swyddog ond roedd yn gwybod pwy oedden nhw. On nhw'n cael eu hethol.

Felly odd yr undeb yn bwysig 'na?

Odd, yn bwysig iawn. A odd e'n fwy pwysig yn Avon.

Mae Beryl yn credu iddynt gerdded allan '*walk out*' un tro ond dim ond am awr neu rywbeth. Does ganddi ddim cof pam ond 'pae siwr o fod'!

Erbyn iddi orffen yno roedd ei chyflog wedi mynd lan i tua £13 rhywbeth ac roedd yn dal i'w roi i'w mam – dyma pam y gadawodd Averil gartre mae'n credu (cadarnheir hyn gan recordiad Averil ei hun.)

Erbyn hyn roedd y teulu wedi dod i lawr o Garreg Lwyd i fyw ym Mhontarddulais – i Heol y Cae. Roedd hi'n haws dal y bws o'r King's Hotel wedyn.

Cred mai *semi-skilled* oedd hi ond bod y rhai ar y machines yn *skilled*. Cred efallai eu bod yn cael mwy o gyflog na hi.

17.30

Roedd *tax* yn dod mas o'r pae hefyd '**Chi wastad yn talu *tax*.**' £13 oedd ganddi yn mynd gartref. Cred bod rhai priod yn gweithio yno ond '**ifanc, fi'n credu odd rhan fwya ohonon ni. – (o) Townhill, Blaenymaes ... o Abertawe on nhw fwya.**' Doedd dim llawer o Bontarddulais yno – daeth Carol a Helen yno ar ei hôl hi. Saesneg oedd iaith y ffatri – roedd rhai yn siarad Cymraeg yno a doedd dim gwahaniaeth os oedd hi'n siarad Cymraeg.

Beth am y merched o Abertawe?

On nhw'n galw chi'n *country bumkin and that's about it*. ... On nhw'n lyfli. On i'n ffindio nhw'n grêt, grêt.

Nid yw'n cofio merched yn defnyddio iaith braidd yn fras yn Hodges. **'Ma rhaid i fi ddweud, wi'n gwbod bo nhw'n gweud Swansea Jack, os yw Swansea Jack gyda chi mae e gyda chi all the way, chm'bod. ... Os on nhw'n ffrind, on nhw'n ffrind. On nhw'n rili brilliant. On i'n ffindio nhw'n brilliant. ... On nhw'n carco fi, whare teg iddyn nhw.'**

Ni fu hi'n mynd i ddsbarthiadau y tu allan i'r gwaith i wella ei sgiliau.

Cael ei phegyn pae – mewn amlen a'r *payslip* y tu mewn. Arian oedd e.

Byddai'n gweithio o wyth hyd hanner awr wedi pedwar (neu bedwar) falle o ddydd Llun i ddydd Gwener. Weithiau byddai'n gweithio ar ambell ddydd Sadwrn os oedd *orders* wedi dod mewn ac eisiau iddynt fynd allan. Cael mwy o dal am hyn.

Yn gosod targed i weithio i gael rhagor o fonws wedyn. Cael targed debyg ar gyfer bob dydd. **'Withes i ddim dydd Sul. Bydden i ddim wedi gwitho dydd Sul anyway.'**

Er mai dim ond 50 ceiniog o'i chyflog roedd hi'n ei gael gan ei mam byddai'n ei safio yn Lloyd's Bank ... ar gyfer ... y dyfodol.

Dim *perks* o weithio yno. Dim siwt i'w thad ychwaith! Welodd hi neb yn pilffro ychwaith.

Byddai'n bosibl i'r merched – y *machinists* - gael nodwydd trwy'u bysedd weithiau. Byddent yn mynd at y nyrs wedyn i'w gael wedi'i ... Chafodd hi mohono ond fu hi ddim yn gweithio ar y *machines*. Nid yw'n cofio unrhyw beth cas yn digwydd yno.

Roedd nyrs yno'n llawn amser. **'Bydde merched yn dod miwn â hangovers a whatever.'** Gallai merched fynd ati â *periods* ond aeth hi ddim. Nid yw'n cofio gorfod mynd ati o gwbl. Roedd fel syrjery gyda'r nyrs. Nid oedd ambiwlans ar y safle.

Cred bod tua 300 yn gweithio yn y ffatri i gyd a lot fwy o fenywod na dynion, **'achos chi'n ffindio fod menywod yn gallu gwneud gwaith bach itha ticklish, ... mwy délicêt.'**

24.27

Cred falle'u bod yn chwarae triciau bach ar ferched newydd ond fu hi ddim yn gwneud hynny a wnaethon nhw ddim ohono fe iddi hi, neu byddai wedi cofio. Roedd digon o *banter* rhwng y dynion a'r menywod, ond roedd y merched yn gweithio gyda'i gilydd y rhan fwy. Roedd dynion *maintenance* yno i drwsio'r *machines*.

Roedd digon o olau yno – *fluorescent light*. Roedd y gwres yn iawn. Nid ffatri newydd oedd hi. Roedd toiledau yno – yn lân wastod. Roedd y ffatri yn lân hefyd. **'Odd pawb yn cadw'i batchyn yn lân.'** Roedd rhai yn dod mewn i lanhau a glanhau'r toilets a pethach fel 'na. Bydden nhw wedi gwneud hyn cyn iddyn nhw ddod i mewn yn y bore. **'Bydden nhw'n mynd i'r toilet i gâl ffag.'** Roedd y rhan fwyaf yn smoco ond doedd hi ddim. **'Odd dim arian 'da fi i smoco!' (chwerthin).** Doedd y merched ddim yn cael smocio wrth eu gwaith. Roedd toiledau'r dynion ar wahan.

Byddai miwsig yn chwarae yn y ffatri – ‘rybish! **Odd miwsig arno trwy’r dydd**’ Roedden nhw’n cael siarad wrth weithio. Roedd hi’n swnllyd lle roedd y *machines* ond fel arall ddim yn ddrwg. Bydde sŵn ble roedd y *machines* achos odd tua chwech rhes ohonyn nhw. Doedd neb yn eu stopio rhag siarad. Bydden nhw wedi siarad am beth fydden nhw wedi bod yn neud nos Sadwrn siwr o fod. I’r Tiv (Tivoli) roedd hi’n mynd. **Cofia un o ferched Abertawe yn gofyn iddi ‘Are you coming to the Park with us?’ ‘No’ wedes i ‘There’s a park in the Bont.’** *Pub* on nhw’n meddwl wrth Park. ‘**Nag on i’n gwbod bod *pub* i gâl yn Abertawe o’r enw Park.**’

Och chi dipyn yn wahanol i bawb arall yn y gwaith. Och chi?

On, on i’n mynd i’r cwrdd. Nag odd neb arall yn mynd i’r cwrdd. ... A odd pawb odd yn priodi, on nhw gyd yn priodi yn St Peter’s Church yn Cockett. Odd Harry Secombe ‘na ar y pryd, ond odd e? .. On i wedi priodi yn y Bont. Neu bydden nhw’n mynd i’r Registrar yn y Brangwyn.’

Cwrddodd â’i gŵr lawr y *monkey’s parade* yn Pontarddulais. ... Chi’n cerdded lan a lawr y Bont a siarad ‘da hwn a siarad ‘da hwnc. ..

Pryd odd hwnnw’n câl ‘i gynnal?

Bob nos Sul. Os nag och chi’n mynd i’r cwrdd och chi ddim yn câl mynd och chi? ... Odd rhaid i chi fynd i’r cwrdd gynta neu gelen i ddim mynd ‘da Mami. Gang o ferched yn cwrdda a cal *chat* ife?

Roedd hi’n mynd i’r Gopa (capel) ar y dechrau ond cafodd ei Mam ychydig o ddigofaint gyda Davies y Gopa ac wedyn aethon nhw i’r Hope. Roedd y mynci pared ar hyd yr hewl fawr ym Mhontarddulais, o’r caffi gwaelod wrth ymyl y stesion - fan hynny roedd pawb yn ymgynnull. Roedd y bechgyn ‘**yn dod lan o Gorseinon, o Ammanford, – odd Llangennech yn *noted*, ... merched pert yn y Bont.**’

Gwas ffarm oedd ei gŵr ar y pryd ac wedyn aeth e ar y JCB. Un o Llangennech yw e. Priodon nhw a dod i fyw yn yr Hendy – rhwng Llangennech a’r Bont. Cwplodd hi’r gwaith yn syth – roedd hi’n mynd i gael ei mab, Andrew. Doedd dim gorfodaeth arni i adael y ffatri. ‘***Most probably* bydden nhw wedi cymryd chi nôl, odd rhai merched yn mynd nôl.**’ Ond doedd neb ganddi hi i garco Andrew bach.

32.20

Roedd *stop fortnight* yn y ffatri i gael gwyliau – cau lawr am bythefnos – wythnos olaf Gorffennaf dechrau Awst - ‘r un peth â’r *miners*. ‘**Fues i byth ar wylie.**’ Doedd dim shifftiau yn y ffatri – roedd pawb yn gweithio yr un oriau. Wrth gloco i mewn a’ch bod yn hwyr byddech chi’n cael eich cropo – colli cwarter awr o’r tâl.

Och chi’n gallu câl rhywun arall i gloco miwn yn eich lle chi withe?

Gallech chi ond bydden nhw’n colli’u job se nhw’n ffindo mas. Odd e ddim werth e odd e?... Nelen i mono fe.

Cred eu bod yn cael hanner awr i ginio ac roedd cantîn yn y ffatri. **‘On i’n gorffod mynd â sandwiches, on i ddim yn câl prynu bwyd.’** Roedden nhw’n cael bwyta’r *sandwiches* yn y cantîn. Roedd llawer o’r merched yn **mynd allan i’r Joiners’** amser cinio - tafarn gyferbyn. **‘Es i ddim.’** Cred eu bod yn cael *break* yn y bore hefyd – ansicr am y prynhawn - **‘odd merched yn mynd mas i gâl fflag. On i’n mynd mas ‘da nhw wedyn i gâl break ife?’** Byddent yn cael Pasg bant – *Good Friday a Easter Monday off*. Does ganddi ddim llawer o gof o’r Sulgwyn. Nid yw’n credu eu bod yn cael eu talu bryd hynny. Byddai’n cael ei thalu adeg *stop fortnight*. Byddai’n cael amser bant Nadolig. Nid yw’n cofio mynd i angladd pan oedd hi’n gweithio yno.

O safbwynt salwch – **‘Fi’n cofio bod yn dost unwaith – on i ddim yn câl ‘n dalu wedyn ife? ... Roiodd yr undeb rywbeth i fi – on i ddim yn erfyn e.’**

Doedd y ffatri ddim yn trefnu unrhyw weithgareddau cymdeithasol – dim cinio Nadolig, na pharti i’r plant hyd y gŵyr hi. Dim tîmau i’r dynion nac i’r merched.

Dim *social club* yno na grŵp oedd yn trefnu pethau cymdeithasol.

O safbwynt ei theimladau yn gweithio yno – **‘On i’n mynd ‘na bob dydd anyway! Wi ddim yn gwbod a on i’n gorffod achos Mami ... na, on i’n ddigon hapus yn mynd ‘na.’** Roedd hi’n enjio’r gwaith yn iawn ac roedd hi’n bosibl symud ymlaen yno. Gallasai fod wedi symud ymlaen i wneud *buttonholes* – bydden nhw wedi ei hyfforddi hi. Bydden nhw’n gweud *with the ‘We think you should move on now.’* Odd y *supervisor* yn gwbod pwy odd yn fodlon gwitho yntefe.

38.12

Roedd offis yno a byddai’r gwehwyr hyn yn dod mas i weld a oedd y *bonus sheet* yn iawn, i weld a och chi wedi tsheto (cheat) wrth ysgrifennu i lawr. Roedd rhai yn gwneud hynny i gael bonus. **‘Odd papur ‘da chi yn dod’ch gwaith i gyd lawr – beth och chi ‘di neud trwy’r dydd – timesheet.’** Mae’n cofio’r term *time and motion*, ac roedden nhw’n gorfod gweithio yn ôl rhyw amser. Nid yw’n cofio unrhyw un yn cael y sac o’r gwaith. Doedd dim llawer yn symud i weithio mewn ffatri arall **‘On nhw either yn gadel achos priodi neu câl plant.’** Chafodd hi ddim parti gadael **‘on nhw’n falch gweld fi’n mynd siwr o fod!’ (chwerthin).** **On nhw’n casglu i roi anrhegion i chi, fair play – y merched ... a’r dynion.... Ces i llien ford a napkins. .. Nhw odd yn rhoi e fi’n credu. On i ddim yn erfyn dim byd.’**

Nid yw’n cadw cysylltiad gyda’r merched oedd yn gweithio gyda hi – dim ond Carol a Helen – o Pontarddulais beth bynnag. Mae’n gweld Carol yn y Bont o hyd ac mae’n cael carden Nadolig gan Helen. Daethant i’r gwaith ar ei hôl hi.

Ar ôl gadael bu’n magu’r plant – yna bu’n gweithio ar nos Sadwrn yn y Bird in Hand (tafarn) yna bu yng Nghlwb yr Hendy yn glanhau, yna bu yn y cantîn yn Morris Motors, ac yna bu yn Avon yn yr Hendy am beth amser – roedd hi gyda Rhidian’s Caterers ac yna daeth ordor mawr o fade – *Iraqi boats* a daeth y Manager ati a gofyn **‘Ti’n moyn jobyn ar y factory floor?’ A chytunodd.** Welodd hi ddim llawer o ffatri Morris Motors achos roedd hi yn y

cantŷn. Fuodd hi ddim yna yn hir achos roedd ei ffrind Sandra yn gweithio yn y *job centre* ac yn cynnig job arall iddi.

Mae Avon Inflatables yn gwneud bade – ac maen nhw'n dal wrthi. Cred bod enw newydd arnynt nawr – Zodiac. Mae'n nodi hefyd bod cwmni arall wedi cymryd Hodges drosodd – Greenwood. Fu hi ddim yno'n hir wedyn. Roedden nhw'n gweld y bosys yn Hodges - Mr Gabriel oedd un ohonyn nhw '**Fe intyrfiwodd fi – fe roiodd jobyn .**' Pan fyddai'n cerdded y *shop floor* byddai'n gofyn a oedd pethau'n iawn ac yn siarad â'r gweithwyr. Ei galw wrth ei henw 'Beryl' nid Miss Matthews. Cred y byddent wedi galw'r *supervisor* wrth yr enw '*Mrs whatever ..*'.

43. 30

Bu'n gweithio yn Avon Inflatables yn yr Hendy ac yn Dafen. Caeon nhw'r ffatri yn yr Hendy ac felly symudodd hi draw. Cred iddi dreulio peth amser rhwng y ddwy yn Morris Motors ac yna cafodd Huw Francis afael arni a dweud '**Ma job yn mynd i ti yn Avon Inflatables os ti'n moyn.**' Roedd hi'n gweithio ar y *shop floor* yn Dafen. Roedd yn cael ei hyfforddi – tua 6-7 wythnos yn y ffatri ei hun. Roedd yn gweithio mewn grŵp o dair wedyn a dyna'r patrwm yno. '**Bues i'n neud, bildo'r cones. Chi'n gwbod dinghies, ma fel points ar y diwedd fan 'na- och chi'n bildo rheina ar wahan i'r bad ei hunan. Wedyn fel odd e'n mynd lawr y lein, odd popeth yn câl 'i joino miwn.**' Roedd hwn o rubber. Roedd y dynion yn torri'r lleder mas – gwahanol feintiau gan fod y bade seisis gwahanol, ac och chi'n gorfod panel-joino wedyn – cael shŷts gwahanol siap – gorfod joino hwnna i gyd gyda'i gilydd i ddod yn fad. Odd e'n mynd lawr y lein a bydde rhywun arall yn dodi'r *cones* arno, rhywun arall yn dodi'r *battles* (?) miwn, a odd y bois yn chwythu nhw lan i desto nhw ac wedyn byddai *final join* i ddodi nhw i gyd gyda'i gilydd – os bydde twll ynddo byddech chi'n ei gael yn ôl i reparo. **Roedd lot o ferched yn gweithio fan hyn hefyd – 3-4 ohonyn nhw ar panel-join, dwy acha cones, 3 acha battles, a 4 acha final join.** Ac roedd sawl lein debyg yno. Ac roedd rhai i lawr y gwaelod wedyn achos on nhw'n neud *dinghies* hefyd – hollol wahanol.

Yn y ffatri hon roedd y cwmni yn sypleio'r *overall*, ac och chi'n gorffod cael y *steel toecaps* arno achos on nhw'n drwm, ond on nhw? Ar ol joino'r chwech panel lleder, roedd pwysau gyda chi. '**Odd e'n waith caled, ... odd e'n gwd, enjoies i e. Fi still yn cysylltu â'r merched 'na nawr.**' Bu yno am tua 10 mlynedd. Doedd hi ddim yn *handlo machine o gwbl*. (Ffôn yn canu).

47.35

Dechreuodd yn Avon ddechrau'r 1980s a gorffen ddechrau'r 1990s. Dim menyg na dim am ei gwallt.

Nid yw'n cofio ei chyflog cyntaf yno ond '**On i'n ennill arian da yn Avon ... on i'n câl e i'n hunan hefyd! On i ddim yn gorffod ei roi e i Mami**'. Pwrpas mynd i ennill cyflog oedd er mwyn '**gwella'n bywyd ni fel teulu. Odd lot o ferched odd yn gwitho yn Avon yn gwitho jyst er mwyn câl holidays.** Nag on i yn. **On i'n safio. Wel, brynon ni'r tŷ hyn a neud e lan ife? ... Education y bois odd number one... na beth odd 'n nôd i.**' Cred mai ei

gŵr Gwyn oedd y prif enillydd arian yn y teulu ‘on i’n safio un fi, ch’mbod ... ishe neud yn siwr bod y bois yn iawn.’

‘Odd undeb yn Avon! (chwerthin). *Industry thing* odd e ... Nelen nhw ddim gwitho ‘da chi ... os nag och chi’n talu undeb. ... Odd pawb yn talu’r undeb. Achos wedes i wrthyn nhw bo fi ddim yn ..credu mewn undeb ‘*No I’m not paying ...*’ “Beryl” wedon nhw ‘*you’re not working with us, cos, if we have a payrise, you’ll have a payrise,*” A wedes i, ‘Oh well, that’s not fair, ... I’ll have to pay it then. “Achos os on i’n moyn i’r cyflog fynd lan hefyd ...’ On ni’n câl lot o bawb yn cerdded mas a *this and that* – odd lot o *nonsense* yn Avon. ... achos os och chi’n câl ‘ch teimo ar rywbeth a’r boi ddim yn agrio (cytuno) (*bugger odd e anyway*) bydden nhw ‘*Right we’re out now! We’re not agreeing to this.*’

Roedd lot o *time and motion* yn Avon. Dechreuodd hi ar *cones* yna ac aeth hi ymlaen i *panel join*. Roedd y *cones* yn fach ac roedd rhaid gwneud lot ohonyn nhw i gael bonus, ond och chi’n bildo tua chwech bad y dydd a gorffen. Gwaith gwahanol. ‘Och chi’n câl y gliw wedyn yntefe a odd y gliw ‘na’n gwynto – och chi’n gorffod câl *break every so often*, neu byddech chi’n mynd *as high as a kite.*’ Dim mwgwd i rwystro hyn. ... ‘Ond odd rhai yn câl *warnings am sniffo.*’ ...

52.30

Och chi’n meddwl falle bod e’n beryglus i chi i fod yn gwynto fe?

Odd y menywod – on nhw’n meddwl ambyti’r arian ar ddiwedd yr wthnos. Odd e’n jobyn o waith, odd e?

Och chi ddim yn ymwybodol fod e wedi effeithio ar eich iechyd chi?

Falle bod e, sain gw bod. Cos pwy jobyn sy ddim yn danger anyway?’

Byddent yn gweithio mewn *gangs* bach yna. Dwy ar y *cones* a 4 ar y *panel-join*.

Nid oedd yn ystyried symud o wneud *cones* i’r bade yn fwy o sgil – dim ond job wahanol. Nid oedd mwy o dal. Nid yw’n sicr a oedd dynion yn cael mwy o dâl na’r menywod – roedd yn dibynnu ar eich gwaith.

Yn Avon achos y gliw roedd yn rhaid cael tymheredd arbennig drwy’r amser – haf a gaeaf. ‘**On nhw’n carco’r tymheredd yn Avon.**’ Roedd nyrs yma hefyd – yn llawn amser, ‘**industrial nurses on nhw’n galw nhw.**’ Roedd *machinists* fan hyn eto, ond nid yw’n cofio lot o gytiau . ‘**Hangovers odd fwya yn Avon.**’

Roedd cwprwl o ferched o’r Hendy yn gweithio yna, ac o Dafen, Burry Port, Cydweli, Swiss Valley ... Roedd Cymraeg yma – unwaith roedd hi’n gwybod fod rhywun yn siarad Cymraeg fyddai hi ddim yn siarad Saesneg gyda nhw. ‘**Ges i’n dynnu lan unweth amdano fe. ... y merched odd yn complaino bo fi’n siarad Cymrag a es i at y Manager, Huw Francis, a wedes i “Ma nhw’n complaino bo fi’n siarad Cymrag” wedes i, “Wel fi yng Nghymru nag w i?” “Odit, odit,” medde fe, “so ti’n neud dim byd yn rong” medde fe, “clatsh di**

bant.” Merched oedd yn meddwl eu bod dipyn bach yn well na hi on nhw. Ond roedd rhai eraill yn gofyn iddi siarad Cymraeg. **‘We love to hear you talk Welsh’ ‘Os dwi’n dechre ‘da rhywun yn Gymrag, Cymrag yw e.’**

Roedd miwsig yn Avon hefyd. Roedd y merched yn canu yn Hodges wrth eu gwaith – canu gyda’r radio – *Top of the Pops*. Doedd carole ddim yn bwysig yno amser y Nadolig. Roedd rhai yn canu yn Avon hefyd **‘Nag on i – on i’n consentreto.’** O safbwynt bonus – byddech yn gwneud rhywfaint bob dydd ac os oeddech chi wedi gwneud tamaid bach ymlaen, - **‘gwedwch ar y dydd Mercher, ... och chi’n neud tamed bach mlân, wedyn erbyn dydd Gwener odd dim rhaid i chi neud shwt gymint odd e? Os och chi wedi cyrradd y target odd dydd Gwener yn nice easy day.’** Roedd *supervisor* yma hefyd – Sian. Chafodd hi ddim cyfle i fod yn *supervisor* – doedd hi ddim eisiau bod.

57.50

Roedd gweithgareddau cymdeithasol yn Avon. Gwnaeth hi *sponsored walk* i Heol Goffa gyda nhw – i blant bach anabl oedd yn mynd mas i’r Olympics. Roedd y merched yn gweithio yno yn mynd mas adeg y Nadolig ond nid y cwmni ei hunan oedd yn trefnu hyn. Byddai pawb yn talu i mewn hyn a hyn yn barod i’r Nadolig – pawb yn prynu anrheg fach – tua £3-£5 a’u rhoi mewn twba a phawb yn cael anrheg fach.

Cred bod tîm *soccer* gan y bois, ond nid i’r merched. Dim *netball* na tenis, na chôr. Byddai mwy o’r merched yn Avon nag yn Hodges wedi bod yn ferched capel – enwi rhai – Joyce a Doris oedd yn gweithio gyda hi. **‘Odd dim lot yn mynd i’r cwrdd yn Abertawe.’** Does dim cof ganddi o barti i’r plant adeg y Nadolig. Ond cred eu bod yn mynd â nhw i’r Panto.

Ron nhw’n cael *stop fortnight* yn Avon hefyd. At hyn ron nhw’n cael wythnos y Sulgwyn bant. **‘Wthnos yr Urdd fi’n galw fe.’** Roedd Colin ei mab yn aelwyd yr Hendy. Roedd y ffatri’n cau.

Gweithiai yno (gadael cartre am 7.30) o wyth – cloco miwn am wyth, a byddai gartre erbyn tua hanner awr wedi pedwar – **‘eight hour shift’.** Doedd dim shifftiau yn y ffatri. **‘On ni’n câl break yn y bore gyda Avon, cup of tea and a piece of toast, wedyn bydde amser cino, wedyn bydden ni’n câl cup of tea byti tri y prynhawn.’** Roedd cantîn yn Avon ond roedd hi’n dal i ddod â brechdane. **‘I’m not bringing money here, I’m taking it from here.’**

Wrth edrych yn ôl mae’n cofio bod **‘yr hen fenywod yn gas. Os nad och chi’n neud ‘ch bonus, odd yr hen fenywod yn terrible, terrible, un neu ddwy ohonyn nhw’.** Roedden nhw wedi bod yno am amser **‘On nhw’n meddwl bo nhw berchen y lle,’** Roedd rhai ohonyn nhw wedi bod yno ers bod Avon lawr yn *North Dock*.

Nid yw’n cofio llawer o dynnu coes y dynion. Roedd y dynion yn gwybod y math o berson oedd hi – **‘We don’t want to play with her ...’** Ni ddaeth ar draws *harassment* yn y gwaith o gwbl – yn Hodges nac Avon. Yr unig drafferth gafodd hi yn Avon oedd am ei bod yn siarad Cymraeg. **‘On nhw’n gweud “Oh the Welshy’s coming again” “So what,” wedes i, “What country are you living in then?”**

Doedd hi ddim yn credu bod hi wedi cael *verbal abuse* na dim byd fel'na gyda nhw. Byddai'n ffindio allan pwy oedd yn siarad Cymraeg. Roedd hi'n syndod faint oedd yn gallu siarad Cymraeg. Chafodd hi mo'r agwedd hon yn Hodges – cred ei bod hi hefyd yn meddwl gan ei bod yn Abertawe ac roedd yn ifancach hefyd – ‘**On i ddim hanner mor ffit. Ddim hanner mor ffit. Ma ffatri yn dod â chi mas, dod â chi mas. Definite ... Odd amser pan och chi ddim yn gweud bw wrth ba, chm’bod, ddim yn ateb neb nôl a sefyll lan dros ‘ch hunan, .. but once chi’n mynd i’r ffatri mae’n neud i chi dynnu’ch hunan mas a sefyll lan – a fi’n credu falle bod câl plant yn neud hynna hefyd. ... yn diwedd chi’n mynd “Nag yn nhw’n mynd i ddamshel arno i ragor yntefe! Achos o ble on ’n dod – dim ond i’r cwrdd on i’n mynd gyda Mami, a cyngherdde yntefe .. cysgodol. .. a gweld fel ma’r rest yn byw. Synnon nhw’n byw dim byd fel ni. Achos ‘na fe, pan on i’n Hodges odd y merched yn gweud wrtho fi “*What are you doing with your money now then Ber?*” Wedes i ‘*I give it to my mother.*’ “*You aren’t giving it all are you?*” “*Yes*” wedes i – aethon nhw’n diwedd on nhw’n moyn ffidlan gyda’i *docket* hi, ... On nhw’n moyn i Mami gâl un *docket*, er mwyn i fi gâl rhagor o arian. Odd y rhan fwya ohonyn nhw ddim ond yn rhoi cyflog rhywbeth iddi mame a on nhw’n câl cadw’r rest.’ Cyfeiria at ffrind iddi a gafodd gadw’i thâl i gyd o’r dechre a dim rhoi dim i’w mam. ‘Cofiwch chi ma fe’n dysgu chi – fi’n meddwl wedyn bo chi’n well off, chm’bod – mae fe wedi dysgu chi ffordd i garco’ch arian’ Doedd ei mam ddim yn cadw’r arian ar ei chyfer hi. Dyna wnaeth hi i’w meibion hi gyda’r arian roedden nhw’n ei gael am weithio yn yr haf. Byddai’n cadw peth ohono drostynt ac yna’n ei roi nol iddynt ar ddiwedd y gwyliau.**

English summary

Hodges Factory, Fforestfach, Swansea (1960/1 – 1964) and Avon Inflatables (c.1980-1990)

Interviewee: VSW050 Mrs Beryl Jones

Date: 27 March 2014

Interviewer: Catrin Stevens on behalf of Women’s Archive of Wales

(N.B. Beryl’s sister, Averil Berrell (VSW034), was also recorded for this project.)

Beryl confirms her maiden name (Matthews) and d.o.b. as 19:9:1945

She was born and brought up at Garreg Lwyd, Graig Fawr, Pontarddulais – her father was a collier and her mother a housewife (she'd once been a farm maid and served in London as a housekeeper for ministers.)

Beryl attended Ysgol Gymraeg Pontarddulais (before it was called Bryniago) – circa 1950. She went on to Pontarddulais Secondary Modern. Her mother hadn't allowed her to sit the 11+ to enable her to go to Gowerton (Girls') Gram. She left school at 15 (1960-61). **'They told me if I could find a job I could go.'**

Her first job was at Hodges, Fforest-fach. She knocked on the door and asked for work. (Lena, her sister who lived in Pontlliw told her: **"Don't take Mami with you – don't take anyone with you or they'll call you a chicken."**)

She had 4 sisters. **"Our Lena had been at Windsmoor's ... she was on the sewing machines.'** This factory was next door to Hodges.

4.05

Their sister, Averil worked in a factory office – not on the factory floor like Lena and Beryl.

Another sister, Gwen had **'something wrong with her – although, I don't think there was anything the matter – and Mam wouldn't let her go out to work or anything – so Gwen didn't do anything.'**

She wasn't prepared for her interview with Hodges – **'I took my certificate with me. I had a certificate in Welsh, R.E., Needlework and History.'**

She'd chosen Hodges because it was the first factory she passed in Fforest-fach.

Hodges made men's suits and trousers. **"You had to match the lining to the suit and cut it out and mark it for the sewers to know where to put the pockets and chose buttons to match."**

Hodges' clothes were considered amongst the best. The complete suit was made there – cutting out, steaming and pressing.

She was trained at first **'they were wonderful to me, I must say.'**

The linings were important and some special orders would ask for a golden lining which wasn't usual.

8.00

Beryl worked in the cutting room. **"The men did all the cutting, because it was probably too heavy for women to handle."** The material was then rolled out for the women to sew – there were lots of women in the sewing part – then on to *final assembly*.

There were lots of different jobs: making button holes, sewing buttons, cutting to a template and sewing. The work was supervised. 3 girls marked the cloth with chalk to show where

the splits for the gathers should be. **‘I don’t think men’s suits have changed much even today.’** They also made waistcoats but no shirts or ties. The suits were packed and sent to shops in places like Blackwood, Swansea and Llanelli, of course.

She had to provide her own overall – but when she went to work in Avon, she was given overalls and had to wear steel toe caps.

She was nervous on her first day but **“They were good in Hodges - as good as gold.”**

Beryl started at 8/8.30am and caught the bus from Pontarddulais to Fforest-fach. She didn’t move from the cutting room during her time there, but moved on from the simple job of matching the lining and rolling up the trouser fabric to marking out the lining. **“This was more of a responsibility. If you put the mark in the wrong place it wasn’t good was it? And once they’d cut it – it was too late.”** It was easily done but there were supervisors to prevent this sort of error – a woman to supervise the women and a man for the men.

14.00

Her first pay: **“It would have been ten pounds or something”**

What did she do with her money? **“I gave it to Mami. All of it, and got 10 shillings back (to spend) on wherever I wanted to go. The Tiv (Tivoli) or somewhere.”**

She had money to pay her bus fare (she had a season ticket which worked out cheaper). National Insurance and her union dues were deducted from her wages.

She had to be a member of the Clothing Industry Union or the other girls would refuse to work with her. When she was ill for a week, the union paid her sick pay.

Beryl remembers a walk-out – but only for an hour.

When she finished work there, her wages had risen to over £13 and she still gave it all to her mother. She believes that Averil left home because she was also obliged to give all her wages to her mother. (This is confirmed during Averil’s interview.)

By now the family had moved down into Pontarddulais – to Heol y Cae. It was much easier to catch a bus from the King’s Hotel.

She was *semi-skilled* but the machinists were *skilled* and were possibly paid more.

17.30

Tax was also deducted from her pay. She took home £13. English was spoken at the factory more than Welsh.

Swansea girls called Beryl a country bumpkin but that was about it – they were lovely. They were firm friends and looked after Beryl.

Beryl didn’t attend any classes/training outside work. She’d work from 8 to 4.30 Mon-Fri and sometimes on Saturdays (extra pay) if there was an order to fill.

Workers met targets and received a bonus for exceeding them.

Even though her mother only gave her 10 shillings (50pence) out of her pay she managed to save some in Lloyds Bank.

Sometimes the machinists would catch themselves in their machines. Needles could go right through their fingers. Beryl doesn't remember any nasty accidents.

A full time nurse was employed at the factory. Beryl doesn't recall ever having to trouble her.

There were approx. 300 workers – more women than men – **“Because you'll find that women can turn their hands to more ticklish or delicate work.”**

24.27

There were tricks played on new staff, though none was played on Beryl and she never played tricks on anyone. There was plenty of banter between the men and women.

The factory was light and warm enough. The toilets were always clean. **“Everyone kept their own patch clean.”**

Everyone smoked in the toilet – Beryl couldn't afford to smoke.

Music played all day. The workers were allowed to talk while they worked. It was quite noisy with the machines. They'd talk about what they did on Saturday night.

Unlike the other girls, Beryl went to chapel – and everybody got married in St. Peter's church in Cockett, where Harry Secombe was, though Beryl got married in Pontarddulais.

She met her husband on Monkey's Parade in Pontarddulais, where young people would promenade on a Sunday night (after chapel).

She used to go to Y Gopa (chapel) until her mother had a bit of trouble with Davies y Gopa, and then they moved to Hope (chapel).

Her husband is from Llangennech. He was a farm hand at the time before becoming a JCB driver. When they married they moved to Hendy. Beryl stopped working straight away - she was expecting their son, Andrew.

“They most probably would have taken me back – some girls went back.”

32.20

The factory shut down for a fortnight July/August – the same as the miners. **“I never went on holiday.”**

There were no shifts. If you were late clocking in, your pay was docked. If you clocked-in somebody else you could lose your job.

There was a ½ hour lunch break in the canteen. **“I had to take sandwiches – I wasn’t allowed to buy food.”** Some girls went out for a pub lunch – Beryl didn’t.

Other holidays included Easter and Christmas.

Beryl was off sick once and wasn’t paid. Unexpectedly she received something from the union.

There were no organised social events.

She enjoyed the work: **“I went every day, anyway. I can’t remember if I was forced to by Mami...”** She could have moved on to making buttonholes – they would have trained her. Sometimes she was told: *‘We think you should move on now.’*

38.12

Workers had to complete timesheets and supervisors would check that they’d actually done the work they’d claimed for and not “cheated” to get a bonus.

She doesn’t remember anyone being sacked or moving to other factories. People left to get married or have children. She didn’t have a leaving party. **“They were probably glad to get rid of me.”** She was given a table cloth and napkins as a leaving gift.

Beryl is only in contact with 2 of the girls who worked with her –Carol and Helen from Pontarddulais. She sees Carol in Pontarddulais and Helen sends a Christmas card.

After leaving Hodges to raise her children, Beryl worked on Saturday nights at The Bird in Hand pub and then as a cleaner in the club in Hendy before working in the canteen at Morris Motors (Felinfoel). She then moved back to Hendy with Rhidian’s Caterers, working in Avon Inflatables until the manager there, offered her a job on the factory floor when they’d received a large order for boats – Iraqi Boats.

Avon Inflatables are still in business today – under a new name: Zodiac. Beryl points out that Hodges has now become Greenwood. When she was there the bosses were seen on the factory floor.

43. 30

Avon Inflatables’ closed their factory in Hendy so Beryl ended up at their Dafen site. (She thinks she might have gone back to Morris Motors before moving there). She worked on the shop floor (for which she received 6-7 weeks’ training) and was one of a group of 3 workers building cones that formed the inner structure of the dinghies. Beryl describes part of the manufacturing process: the men cut out the leather (?) in varying sizes for the different sized boats. Then the panels were joined together to form the skin of the boat. Beryl’s cones were added further along the assembly line. At the end of the line everything was inflated to check for leaks.

“There were a lot of girls working here too – 3 or 4 on panel-join, 2 on cones, 3 on battles and 4 on final join.”

There were several lines like this and others that made a different type of dinghy.

She didn't wear gloves or any hair covering. Overalls were supplied - and steel toecaps because of the heavy work. **“It was hard work.....it was good. I enjoyed it. I'm still in touch with those girls now.”**

She worked there for 10 years early 1980s – early 1990s) and never handled a machine.

47.35

Beryl doesn't remember her first wage packet. **“I was earning good money at Avon.... for myself – I didn't have to give it to Mami.”**

Some girls spent all their pay on holidays but Beryl saved and was able to buy the house they now live in and provide an education for her boys. Her husband, Gwyn, was the main breadwinner and Beryl saved her wages.

There was a union at Avon **“They wouldn't work with you if you didn't pay your union dues.”** At first Beryl refused to join until she was told: *‘you're not working with us, cos, if we have a pay rise, you'll have a pay rise.’*

There were walkouts and **“a lot of nonsense because we were timed on jobs and if the bloke didn't agree – he was a bugger anyway – they'd say: “Right we're out now! We're not agreeing to this.””**

Beryl started making cones then moved to panel joining. The cones were small and she had to make lots of them to get her bonus. Then there was the glue. **“..The glue didn't half smell. You had to have regular breaks or you'd go as high as a kite.”** There were no masks and some would be given warnings for “sniffing”.

52.30

Despite the danger, the girls thought about the money at the end of the week. **“It was a job of work wasn't it?”**

They worked in little gangs – 2 on cones, 4 on panel join. Beryl didn't consider moving from cones as a step up. The work would be different but the wages were the same. She's not sure if men were paid more than women.

Because of the glue, there had to be a constant temperature at Avon – summer and winter. There was also a full-time nurse. Beryl thinks she mainly dealt with hangovers.

There were girls from Hendy, Dafen, Burry Port, Cydweli, Swiss Valley ... so there was plenty of Welsh spoken. Some complained that Beryl was speaking Welsh so she told Huw Francis, the manager: **“Well I'm Welsh aren't I?”** He told her to carry on.

Some would ask her to speak Welsh: **“We love to hear you talk Welsh.”**

There was music at Avon. The girls at Hodges sang as they worked, so did some of the Avon workers.

Beryl: **“I didn’t – I was concentrating.”**

To ensure reaching targets by the end of the week Beryl would do a little extra every day in order to have an easy day come Friday. There was a supervisor called Siân. Beryl didn’t have ambitions to become a supervisor.

57.50

Social events at Avon:

Beryl participated in a sponsored walk for Heol Goffa – in aid of disabled children who were going to the Olympics.

The workers had a Christmas savings club and a secret Santa.

She thinks there was a soccer team for the men. There was no netball team or tennis or choir for the girls.

There were more girls at Avon who were likely to be chapel goers (as opposed to the girls at Hodges). Beryl names Joyce and Doris who worked with her. **“Not many of the Swansea girls went to chapel.”**

Beryl has no recollection of there being children’s Christmas parties, but thinks they were taken to see Pantomimes.

Avon had a fortnight shutdown and also a week at Whitsun - **‘Urdd Week, I call it.’** Her son Colin was a member of the Hendy *aelwyd* (club).

Beryl worked at Avon from 8 to 4 with 2 tea breaks and a lunch break taken in the canteen. Beryl didn’t buy lunch. She ate her own sandwiches. ***“I’m not bringing money here; I’m taking it from here.”***

Beryl remembers: **“the older women were nasty. If you didn’t make your bonus they were terrible, terriblethey’d been there a long time.... thought they owned the place.”**

Nobody played tricks on Beryl: ***‘We don’t want to play with her ...’*** She didn’t experience any kind of harassment. The only problem that arose at Avon was as a result of her speaking Welsh. **“They’d say: *“Oh the Welshy’s coming again”* So I’d say: *“So what? What country are you living in then?”***

She was surprised to find so many Welsh speakers working at the factory.

Beryl thinks that her working life brought her out of herself and taught her how to stand up for herself. Having children also strengthened her resolve in this respect. **“They’re not going to trample over me anymore.”** Her upbringing had been sheltered: **“Where I came**

from – I only went to chapel with Mami or to concerts ... and to see how the rest live – it's nothing like us.”

“When I was at Hodges, the girls would ask “*What are you doing with your money now then Ber?*” I'd say “*I give it to my mother.*” “*You aren't giving it all are you?*” “*Yes.*” Eventually they wanted to fiddle my docket so that Mami would get one docket and I'd be able to keep more money. Most of them only gave some of their wages to their mothers and kept the rest.”

Beryl refers to a friend who kept all her wages from the outset and didn't give a penny to her mother. “**Mind you, it teaches you – I think you're better off, y'know – it teaches you how to look after your money.**” Beryl's mother didn't save her money on Beryl's behalf – unlike how Beryl kept some of her sons' wages over the summer and gave it back to them at the end of the holidays.